CYMWYSTERAU CYMRU A LLYWODRAETH CYMRU

Dogfen Fframwaith

2019 - 2024

Dogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru

Rhagair

Lluniwyd y ddogfen fframwaith hon gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (AGC) mewn ymgynghoriad â Cymwysterau Cymru. Mae'n nodi'r fframwaith eang y mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn nodi'r telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi grant a llythyr dyraniad grantiau i Cymwysterau Cymru gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn unol â hwy.

Ceir trosolwg cynhwysfawr o drefniadau rheoli arian cyhoeddus yng Nghymru yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Telir y grant ar yr amod bod Cymwysterau Cymru yn cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodir yn y ddogfen hon yn foddhaol, ynghyd ag unrhyw amodau a gofynion eraill y gallai Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 70 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, eu gosod o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff corfforaethol. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Ddeddf sy'n rhoi rhagor o fanylion am sefydlu'r corff.

Mae paragraff 31 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyllid, ar ffurf grantiau, i Cymwysterau Cymru.

Caiff y Ddogfen Fframwaith hon ei hadolygu o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru ar y cyd. Dylid ei hadolygu bob pum mlynedd o leiaf. Mae copïau o'r ddogfen hon ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol wedi cael eu cadw yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) ac maent ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cymwysterau Cymru. Mae'r ddogfen wedi cael ei llofnodi a'i dyddio gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (yr adran noddi) a Cymwysterau Cymru.

Cafodd telerau'r Ddogfen Fframwaith hon eu cymeradwyo gan y Gweinidog Addysg ym mis Mawrth 2019.

Llofnod…… ……. Steve Davies, Cyfarwyddwr AGC

Dyddiad……1/4/2019……..

Llofnod……Ann Evans, Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Dyddiad……1/4/2019……..

Mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru wedi cytuno ar yr egwyddorion canlynol i reoli cydberthnasau rhyngddynt:

Egwyddorion llywodraethol sy'n diffinio cydberthnasau rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru

Cenhadaeth a diben ar y cyd

Cyflawni dros Gymru - Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, yn chwarae rôl bwysig yn nhrefniadau llywodraethu Cymru ac wrth gyflawni dyheadau pobl Cymru. O safbwynt Llywodraeth Cymru, prif rôl Cymwysterau Cymru yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan ddefnyddio cyllid y pleidleisiwyd arno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff y gydberthynas hon ei gweinyddu drwy drefniant noddi a gaiff ei reoli gan yr Adran Addysg yn Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion. Mae'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn amrywio o ran eu ffurf ac maent yn cynnwys elusennau a chyrff lled-farnwrol. Gan barchu'r amrywiaeth hwn, mae Gweinidogion yn disgwyl i Cymwysterau Cymru gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau pwysig i bobl Cymru ar eu rhan. Dylai Cymwysterau Cymru roi ystyriaeth i'r Nodau Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhaid i Cymwysterau Cymru sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Llywodraeth Cymru (sy'n cynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan)), sef:

- rhoi'r dinesydd yn gyntaf;
- gwybod pwy sy'n gwneud beth a pham;
- ymgysylltu ag eraill;
- arfer gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus;
- datblygu dulliau cyflawni arloesol;
- bod yn sefydliad sy'n dysgu;
- sicrhau gwerth am arian.

Yn ogystal, rhaid i Cymwysterau Cymru sicrhau, wrth gyflawni swyddogaethau ar ran Llywodraeth Cymru, ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum egwyddor ar gyfer gweithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (fel y'u nodir yn Atodiad 4).

Cynnwys

1. Cyflwyniad **3**

Pwerau a dyletswyddau cyfreithiol Cymwysterau Cymru 3

Pwerau Gweinidogion Cymru 4

Partïon a chydberthnasau 6

Cydberthnasau rhwng Cymwysterau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru 6

Cydberthnasau rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru 6

2. Llywodraethu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd **9**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – adroddiadau blynyddol Cymwysterau Cymru 9

Y Gweinidog Addysg 10

Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru 10

Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru 11

Tîm Noddi Cymwysterau Cymru 12

Atebolrwydd a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru 13

Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r Bwrdd 13

Rôl y Prif Weithredwr fel Prif Swyddog dros achosion Ombwdsmon 14

Atebolrwydd Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru i'r adran noddi 14
Atebolrwydd Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 15
Bwrdd Cymwysterau Cymru 15
Cydgyfrifoldebau 15
Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru 17
Cyfrifoldebau personol aelodau unigol o'r Bwrdd 18
Adroddiadau blynyddol 19
3. Trefniadau rheoli 20
Cyffredinol 20
Staff Cymwysterau Cymru 20
Recriwtio, cadw a rheoli staff 20
Cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth 21
Cylchoedd gwaith cyflog 21
Buddiannau staff a gwobrau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog 22
Pensiynau a TWE 22
Dileu swyddi, diswyddo a digolledu 22
Trefniadau cynllunio 23
Cynllunio cyllidebau 23
Cynllunio busnes 23
Rheoli risg 23
4. Cyfrifyddu ariannol a threfniadau archwilio 25
Cyfrifoldebau ariannol Cymwysterau Cymru 25
Adroddiadau cyffredinol 25
Adroddiadau ar eithriadau 25
Adolygiad cyfnodol 25
Cyfrifon statudol 25
Incwm 26
Arian cyhoeddus 26
Incwm o ffynonellau'r Trysorlys (Grant) 26
Incwm o ffynonellau ar wahân i'r Trysorlys 26
Arian preifat 27
Ffioedd a thaliadau 27
Gwariant 27
Benthyca arian, rhoi arian ar fenthyg, gwarantau a buddsoddiadau 28
Grantiau a benthyciadau 28
Balansau arian parod 28
Rheoli derbyniadau 29
Trosglwyddiadau 29

Llog a enillir ar falansau arian parod a balansau banc 29
Trefniadau archwilio ac adroddiadau dilynol 29
Pwyllgor archwilio 29
Archwilio mewnol 30
Archwilio allanol 30
Hawl mynediad yr adran noddi 31
Is-gwmnïau a chyd-fentrau 31
Darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – arfarnu, ymchwilio a gwerthuso 31
Atodiad 1: Egwyddorion llywodraethu 32
Annibyniaeth Cymwysterau Cymru 32
Llywodraethu Cymwysterau Cymru 32
Ffocws ar y dysgwr 32
Diben nawdd 32
Cydberthynas yn llawn cyfathrebu 33
Atodiad 2: Hanfodion nawdd effeithiol 34
Dealltwriaeth glir 34
Asesu risg 35
Cyfathrebu effeithiol 35
Sefydlu presenoldeb awdurdodol 35
Atodiad 3: Y swyddogaeth noddi fel y'i nodir yn y ddogfen fframwaith model 37
Atodiad 4: Rhestr o ganllawiau a chyfarwyddiadau corfforaethol ar sail llywodraeth gyfan 38
Atodiad 5: Crynodeb o ofynion cymeradwyo a therfynau dirprwyo 42

1. Cyflwyniad

Pwerau a dyletswyddau cyfreithiol Cymwysterau Cymru

1. Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru er mwyn ystyried y materion a oedd yn effeithio ar y system gymwysterau yng Nghymru. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad bod angen i Gymru sicrhau mwy o berchenogaeth dros y cymwysterau a gynigir yng Nghymru a darparu system gymwysterau i ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru a allai gael ei chynllunio mewn ffordd hyderus a dibynadwy i ddiwallu eu hanghenion. Argymhellodd y dylai Cymru gael awdurdod cymwysterau annibynnol, hyd braich oddi wrth y llywodraeth.

2. Cafodd Cymwysterau Cymru ei sefydlu fel rheoleiddiwr annibynnol i Gymru gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("Y Ddeddf"). Caiff prif nodau a swyddogaethau statudol y sefydliad eu hamlinellu yn Y Ddeddf. Y prif nodau yw:

   - Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
   - hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

3. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi cyfres o faterion allweddol y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru roi sylw iddynt wrth gyflawni ei brif nodau ac yn rhoi ystod o swyddogaethau i Cymwysterau Cymru sy'n gysylltiedig â'r system gymwysterau – gan gynnwys pwerau i reoleiddio cyrff dyfarnu, pennu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau, cyfyngu ar gymwysterau a'u comisiynu os yw'n dewis gwneud hynny a chymeradwyo a monitro cymwysterau a gyflwynir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig.

4. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldebau mewn perthynas â'r cwricwlwm (gan gynnwys addysgeg ac asesu) i ysgolion o dan Ddeddf Addysg 2002 a Deddfau eraill sy'n rhoi rhagor o gyfrifoldebau iddynt dros bolisi addysg a sgiliau yng Nghymru, er enghraifft, mewn perthynas â strwythur a threfniadau cyllido'r system addysg a chymwysterau, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, Cymwysterau Cymru ei hun a dysgu seiliedig ar waith. Fel y cyfryw, mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi cymwysterau yng Nghymru. Yn hynny o beth, maent yn dibynnu ar y cyngor a'r arbenigedd a ddarperir gan Cymwysterau Cymru fel yr awdurdod arbenigol yng Nghymru ar gymwysterau.

5. Rhesymeg Gweinidogion Cymru ar y pryd dros greu Cymwysterau Cymru oedd cryfhau a symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae gan Cymwysterau Cymru annibyniaeth weithredol a rheoleiddiol ac felly mae'n gwneud penderfyniadau rheoleiddiol a phenderfyniadau polisi sy'n gysylltiedig â'i brif nodau ac yn unol â'i swyddogaethau statudol. Felly, er enghraifft, bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud ei benderfyniadau ei hun ar bennu meini prawf safonol a phenodol ar gyfer cydnabod a chymeradwyo (ac amodau ar gyfer

gwneud hynny). Gall y meini prawf a'r amodau hyn ymwneud â chynnwys cymwysterau yn ogystal â'u dulliau asesu. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw gyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhan fwyaf o benderfyniadau gweithredol a rheoleiddiol a wneir gan Cymwysterau Cymru (ond mae'r Ddeddf yn nodi eithriadau yn hyn o beth a chânt eu crynhoi isod). Cymwysterau Cymru yw'r arbenigwr awdurdodol ar gymwysterau yng Nghymru, ac mae'n annibynnol ar Weinidogion o safbwynt gweithredol a rheoleiddiol.

6. Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi Cymwysterau Cymru i weithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar ei berfformiad ariannol a chyflwyno adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei gyfrifoldebau statudol.

7. Fodd bynnag, o ystyried rhyngddibyniaeth cymwysterau a'r cwricwlwm, bydd hi'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio er mwyn llywio'r system gymwysterau genedlaethol i Gymru. Un o'r ffyrdd y caiff hyn ei fynegi yn Neddf Cymwysterau Cymru yw drwy'r gofyniad i'r ddwy ochr (Gweinidogion Cymru a Cymwysterau Cymru) gyd-gyhoeddi'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol. Dyma sut mae Cymwysterau Cymru yn penderfynu pa gymwysterau neu fathau o gymwysterau y bydd yn canolbwyntio arnynt fel rhan o'i broses gymeradwyo ar unrhyw adeg[1]. Bydd angen i Cymwysterau Cymru weithio gyda Gweinidogion Cymru i flaenoriaethau'r cymwysterau a gymeradwyir o ran eu pwysigrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr[2]. Fel hyn, byddai gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o hyd i bennu, ar lefel strategol, y cymwysterau blaenoriaethol yng Nghymru, ond byddai penderfyniadau rheoleiddiol yn cael eu gwahanu oddi wrth y llywodraeth.

8. Yn ogystal, am y bydd bob amser angen i rai cymwysterau gyd-fynd â'r hyn a addysgir mewn ysgolion (ac a gaiff ei bennu drwy'r cwricwlwm), bydd hi'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio'n agos ynghylch pryd y caiff newidiadau i gymwysterau eu cyflwyno mewn ymateb i newidiadau yn y cwricwlwm. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cymwysterau sy'n fwy perthnasol ac ymateb i anghenion Cymru. Bydd angen i Cymwysterau Cymru bob amser fod yn ymwybodol o gyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru a gellir rhoi cyfarwyddyd iddo, o dan adran 53 o'r Ddeddf, roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru.

Pwerau Gweinidogion Cymru

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau cyffredinol a ddisgrifir uchod, mae gan Weinidogion Cymru nifer o ddyletswyddau a phwerau penodol mewn perthynas â Cymwysterau Cymru hefyd. Y pedwar pwysicaf yw:

i) Dyletswydd i gydweithio (â Cymwysterau Cymru) i baratoi'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol (adran 13) a nodir yn Neddf 2015.

---

[1] Bwriedir i'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol gynnwys cymwysterau sydd wedi cyrraedd camau datblygu a chymeradwyo amrywiol.

[2] Bydd Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cytuno ar y protocol ar gyfer datblygu'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol a'i chynnwys.

Bydd y rhestr yn dangos y cymwysterau y bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio arnynt wrth gymeradwyo. Felly, mae cyfle i Weinidogion sicrhau bod gwaith Cymwysterau Cymru mewn perthynas â chymeradwyo cymwysterau yn cyd-fynd â gwaith i newid, er enghraifft, y cwricwlwm a ddilynir mewn ysgolion.

ii) Pŵer i nodi gofynion sylfaenol mewn perthynas â chymwysterau drwy reoliadau (adran 21) (mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol).

Diben y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion i fynnu bod yn rhaid dangos agweddau arbennig ar wybodaeth, sgiliau neu ddealltwriaeth ar gyfer cymwysterau penodol. Pŵer rhagofalus yw hwn ac ni ragwelir y caiff ei ddefnyddio'n aml. Dim ond os yw Gweinidogion yn fodlon bod angen rheoliadau "er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a ddilynir gan bersonau sy'n ymgymryd â chwrs sy'n arwain at gymhwyster yn briodol at anghenion rhesymol y personau hynny" y caiff y rheoliadau hynny eu gwneud. Rhaid i Weinidogion ymgynghori â Cymwysterau Cymru a phersonau priodol eraill cyn gwneud rheoliadau o'r fath. Ar ôl i reoliadau gael eu gwneud, efallai na fydd Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo cymwysterau o'r math penodedig, os nad ydynt yn bodloni'r gofynion sylfaenol.

iii) Pŵer i roi cyfarwyddyd (adran 53), drwy gyfarwyddyd cyhoeddedig, i Cymwysterau Cymru roi sylw i agweddau ar bolisi llywodraeth (a materion eraill).

Mae hwn yn bŵer eang a all ymwneud ag unrhyw agwedd ar bolisi llywodraeth (sy'n fwyaf tebygol o ymwneud â'r maes addysg a sgiliau, ond nid o reidrwydd). Nid oes gorfodaeth ar Cymwysterau Cymru i weithredu polisi llywodraeth, ond mae ganddo ddyletswydd i roi sylw iddo os caiff gyfarwyddyd i wneud hynny. Os bydd Cymwysterau Cymru yn cymryd unrhyw gamau sy'n gwrthdaro â pholisi llywodraeth y rhoddwyd cyfarwyddyd iddo roi sylw iddo, bydd yn rhaid iddo fod yn barod i gyfiawnhau hynny yn y llysoedd a/neu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n bwysig nodi yma nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau o dan adran 53 mewn perthynas â phenderfyniadau rheoleiddio a wneir gan Cymwysterau Cymru.

iv) Pŵer i eithrio cwrs a ariennir yn gyhoeddus sy'n arwain at gymhwyster, ar gyfer dysgwyr hyd at 19 oed, rhag y gofyniad i ddefnyddio cymhwyster sydd wedi cael ei gymeradwyo neu'i ddynodi gan Cymwysterau Cymru.

Mae hyn yn rhoi disgresiwn i Weinidogion benderfynu p'un a ddylid caniatáu i gymwysterau 'eraill' gael eu defnyddio ar gyrsiau penodol – naill ai'n gyffredinol neu ar gais. Pŵer rhagofalus yw hwn.

Nid yw Cymwysterau Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar ddyrannu arian i gyrsiau.

Wrth arfer y pwerau hyn, bydd Gweinidogion yn gofyn am gyngor gan Cymwysterau Cymru cyn penderfynu p'un a ddylai cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus gael ei eithrio rhag cael ei gymeradwyo neu'i ddynodi.

9. Mae'r agweddau eraill ar bolisi sy'n ymwneud â chymwysterau y mae Gweinidogion Cymru yn dal i fod yn gyfrifol amdanynt yn cynnwys:

Y gallu i benderfynu pa gyrsiau i'w hariannu. Er y bydd cyrsiau i ddysgwyr o dan 19 oed, sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy a dynodedig, yn *gymwys* i gael arian cyhoeddus, mae Gweinidogion yn cadw'r disgresiwn i benderfynu p'un a ddylid ariannu'r cyrsiau hyn ai peidio.

Nid yw Cymwysterau Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar ddyrannu arian i gyrsiau.

Y gallu i benderfynu defnyddio cymwysterau i fesur unrhyw beth arall heblaw perfformiad dysgwr.

Y gallu i gasglu ac adolygu ystadegau ar gyflawniadau dysgwyr yng Nghymru mewn cymwysterau.

Partïon a chydberthnasau

Cydberthnasau rhwng Cymwysterau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

10. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd, ar ran pobl Cymru, yn ei ddwyn i gyfrif am ei weithgarwch gweithredol a strategol, a'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio.

11. Yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaeth ar ei adroddiad blynyddol, gellir galw ar Cymwysterau Cymru i roi arbenigedd a chyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu un o'i bwyllgorau neu ymgymeriadau cysylltiedig. Mae Cymwysterau Cymru yn rhydd i fynd at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn annibynnol gyda'i gyngor ei hun mewn perthynas â'i swyddogaethau statudol.

12. Caiff y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n rhan o'r gydberthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru eu nodi yn adran 2 o'r ddogfen hon.

Cydberthnasau rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru

13. Y partïon sy'n rhan o'r cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yw:

- Y Gweinidog Addysg
- Cadeirydd a Bwrdd Cymwysterau Cymru

- Swyddogion Cymwysterau Cymru

- Gweision sifil yng Ngrŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

14. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflawni gweithgarwch noddi ar ran y Gweinidog Addysg.

15. Dylai'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, gydag ymagwedd gymesur a chytûn at risg ariannol.

16. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod swyddogaethau noddi yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr egwyddorion llywodraethu yn Atodiad 1.

17. Mae Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddelio â'i gilydd, yn gyhoeddus ac yn breifat, mewn ffordd gyson, barchus a cholegol. Mae'r ddwy ochr yn ymrwymo i geisio cyfathrebu'n effeithiol, bod mor agored â phosibl, rhannu gwybodaeth a rheoli materion dadleuol drwy gyd-drafod.

18. Dylai'r ddwy ochr gyfathrebu ar sail yr egwyddor 'dim byd annisgwyl' yn yr ystyr y dylid cyfathrebu mewn ffordd agored, onest, adeiladol a chyson. Dylid cytuno ar brotocolau cyfathrebu ac fel rhan o'r broses honno, dylid ymgysylltu'n sylweddol â lefelau uwch er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol da, ac adlewyrchu ymrwymiad i'r gydberthynas. Dylid pennu strwythur clir ar gyfer cyfathrebu ffurfiol (yn enwedig o ran data sydd o fudd i'r ddwy ochr), adroddiadau ffurfiol (gan gynnwys digwyddiadau cofnodadwy) a threfniadau monitro, a darparu cyngor a gwybodaeth i'r ddwy ochr.

19. Caiff rolau a disgwyliadau clir ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Cadeirydd, y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu, y Tîm Noddi ac Archwilwyr eu nodi yn adran 2 o'r ddogfen fframwaith hon. Dylai fod gan bob parti wybodaeth dda am y rhain.

20. Tîm Noddi Cymwysterau Cymru fydd prif bwynt cyswllt Cymwysterau Cymru yn Llywodraeth Cymru, ond gall swyddogion eraill o Lywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru a Cymwysterau Cymru gyfathrebu'n uniongyrchol â'i gilydd hefyd.

21. Bydd unrhyw gyfathrebu uniongyrchol rhwng Bwrdd Cymwysterau Cymru a'r Gweinidog yn cael ei wneud drwy'r Cadeirydd fel arfer.

22. Dylai'r rôl noddi ganolbwyntio ar roi cyfrif am y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario fel y disgrifir yn Llythyr Dyraniad Grantiau Cymwysterau Cymru, ac ar reoli cydberthnasau rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff disgwyliadau ar gyfer rôl Tîm Noddi Cymwysterau Cymru eu nodi yn Atodiad 3 o'r ddogfen fframwaith hon.

23. Bydd Cymwysterau Cymru yn ffynhonnell o gyngor awdurdodol ar bolisi cymwysterau i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

24. Dylid sicrhau dealltwriaeth glir o gydberthnasau a threfniadau cyfathrebu mewn perthynas â'r rolau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag uniondeb ariannol y sefydliad. Nodir y rhain yn adran 3 o'r ddogfen fframwaith hon.

    Mae'n anorfod y bydd gan staff yn Cymwysterau Cymru gydberthnasau gwaith agored a chydweithredol â gweision sifil yn Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â materion ariannol, y cwricwlwm, cyfathrebu, yr iaith Gymraeg, sgiliau, twyll a chamymarfer; a chyda grwpiau eraill yn Llywodraeth Cymru.

25. Mewn meysydd penodol, bydd y Tîm Noddi yn arwain y gwaith o ddatblygu arferion y cytunir arnynt (er enghraifft, cyfarfodydd chwarterol), protocolau neu gytundebau rhannu y mae angen eu sefydlu mewn modd mwy ffurfiol mewn perthynas â materion neu weithdrefnau penodol, er mwyn rhoi eglurder ar sut i weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - Cytundeb rhannu data;
    - Protocol cyfathrebu a chyngor sy'n ymdrin ag amrywiaeth o sefyllfaoedd;
    - Rheoli digwyddiadau cofnodadwy.
    - Eraill fel y cytunir arnynt.

2. Llywodraethu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – adroddiadau blynyddol Cymwysterau Cymru

26. Bob blwyddyn ar ôl 31 Awst, bydd Cymwysterau Cymru yn paratoi adroddiad ar ei weithgareddau er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i farnu i ba raddau y mae wedi llwyddo i gyflawni ei brif nodau. Cymwysterau Cymru fydd yn penderfynu ar union fformat yr adroddiad blynyddol cyhoeddedig, ond bydd yn rhaid i'r adroddiad gynnwys y canlynol o leiaf, fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015 yn Atodlen 1, paragraff 28:

    - Sut y mae Cymwysterau Cymru wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod (gan gynnwys drwy gyfeirio at ei brif nodau). Dylai hyn gynnwys manylion am y canlynol:

        - casgliadau unrhyw asesiad a gynhelir gan Gymwysterau Cymru, yn ystod y cyfnod adrodd, o effaith arfer ei swyddogaethau ar system gymwysterau Cymru, dysgwyr, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch;

        - sut y mae Cymwysterau Cymru wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd;

        - unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt, yn ystod y cyfnod adrodd, o ganlyniad i unrhyw waith ymchwil a gynhaliwyd gan neu ar ran Cymwysterau Cymru.

    - Gweithgareddau a blaenoriaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru am y cyfnod adrodd nesaf.

27. Gall yr adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth arall hefyd fel sy'n briodol ym marn Cymwysterau Cymru.

28. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad ariannol ar gyfer pob blwyddyn hyd at 31 Mawrth ar wahân.

29. Rhaid i Cymwysterau Cymru osod copi o'r adroddiad blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd.

30. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (neu un o'i Bwyllgorau) yn craffu ar yr adroddiad blynyddol ac yn ei drafod, ac yn galw ar y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddarparu cadarnhad o gynnwys yr adroddiad neu ragor o dystiolaeth. Gall wneud argymhellion i Cymwysterau Cymru o ganlyniad i'w waith craffu a thrafod.

31. Gall Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru alw ar uwch aelodau o staff Cymwysterau Cymru i ateb ymholiadau am ymddygiad y sefydliad hefyd.

Y Gweinidog Addysg

32. Mae'r Gweinidog Addysg yn arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg a sgiliau yng Nghymru. Bydd y Gweinidog yn cwrdd â Chadeirydd y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod a gwerthuso perfformiad ariannol Cymwysterau Cymru, ei gyfraniad i Gymru ac i bolisi addysg a sgiliau Llywodraeth Cymru.

33. Y Gweinidog Addysg fydd yn pennu'r telerau ac amodau ar gyfer penodi Aelodau'r Bwrdd. Bydd y Gweinidog hefyd yn asesu perfformiad Cadeirydd Cymwysterau Cymru drwy gyfarfod perfformiad blynyddol. Yn ogystal, bydd y Gweinidog yn cymeradwyo telerau ac amodau cyflogaeth pob aelod o staff Cymwysterau Cymru, fel y'u cynigir gan Cymwysterau Cymru[3].

34. Bydd y Gweinidog yn cytuno ar gyllid ac yn ei ddyrannu i Cymwysterau Cymru yn unol â'r dyraniad grant y cytunir arno.

35. Bydd y Gweinidog yn cytuno ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol ar y cyd â Cymwysterau Cymru fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru. Rhagwelir y bydd Cymwysterau Cymru yn dechrau datblygu'r rhestr ac yn cynnig rhestr i'r Gweinidog a fydd yn adolygu ei gynigion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gall y Gweinidog awgrymu diwygiadau i'r rhestr o gymwysterau blaenoriaethol i'w hystyried a chytuno arnynt ar y cyd.

Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru

36. Prif swyddog cyfrifyddu Gweinidogion Cymru yw Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae ganddo/ganddi gyfrifoldebau a bennir gan Drysorlys EM ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol) a Senedd y DU (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am y canlynol:

    - rheoleidd-dra ac uniondeb sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru;

    - sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw cyfrifon priodol;

    - defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnwys y grant a bleidleisiwyd i Cymwysterau Cymru o dan Gynnig Cyllideb Flynyddol Llywodraeth Cymru.

37. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau eraill sydd ar waith ar draws Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus. Caiff ei gynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau hyn gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a

[3] Yn ymarferol, yr Uned Noddi fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn bennaf. Gweler yr Atodlen Dirprwyo yn Atodiad 5.

Gwasanaethau Cyhoeddus y mae wedi'i ddynodi yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac wedi dirprwyo cyfrifoldeb iddo am Cymwysterau Cymru.

Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru

38. Y grŵp sy'n noddi Cymwysterau Cymru yw'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

39. Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yw Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y grŵp noddi. Mae'n atebol i'r Gweinidog a'r Cynulliad Cenedlaethol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau eraill a ddefnyddir gan Cymwysterau Cymru yn bodloni'r gofynion o ran uniondeb a rheolaeth ariannol dda. Yn unol â hynny, mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gyfrifol am sicrhau bod datganiad digonol o'r gydberthynas ariannol rhwng Gweinidogion Cymru a Cymwysterau Cymru ar gael a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac am effeithiolrwydd cydberthynas Llywodraeth Cymru â Cymwysterau Cymru.

40. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y dyraniad grant a ddyfernir i Cymwysterau Cymru ac am gynghori'r Gweinidog ar y gyllideb briodol i Cymwysterau Cymru gan ystyried blaenoriaethau gwariant cyffredinol yr adran noddi. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried amcanion strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru wrth bennu ei amcanion ei hun.

41. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud y canlynol:

    - monitro gweithgareddau ariannol a sefyllfa ariannol Cymwysterau Cymru drwy gyfarfodydd a chofnodion rheolaidd;
    - mynd i'r afael â phroblemau ariannol sylweddol o fewn Cymwysterau Cymru, gan wneud unrhyw ymyriadau y bernir bod eu hangen;
    - cynnal asesiadau cyfnodol o'r risgiau i'r adran ac i allu Cymwysterau Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
    - hysbysu Cymwysterau Cymru am bolisi llywodraeth perthnasol mewn ffordd amserol;
    - tynnu sylw Bwrdd llawn Cymwysterau Cymru at unrhyw bryderon am weithgareddau Cymwysterau Cymru y mae angen eu hegluro a chael sicrwydd y caiff camau unioni eu cymryd;
    - dynodi Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru (neu swyddog perthnasol arall o Cymwysterau Cymru) yn Swyddog Cyfrifyddu ar ei ran.

42. Gall y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ddirprwyo cyfrifoldeb am reoli'r gydberthynas â Cymwysterau Cymru o ddydd i ddydd i Gyfarwyddwr Grŵp AGC neu Gyfarwyddwr arall yn y Grŵp.

Tîm Noddi Cymwysterau Cymru

43. Mae Tîm Noddi Cymwysterau Cymru wedi'i leoli yn Is-adran Cwricwlwm ac Asesu y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r tîm hwn yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru mewn perthynas â pherfformiad ariannol Cymwysterau Cymru. Yr uned yw'r brif ffynhonnell o gyngor i'r Gweinidog ar gyflawni cyfrifoldebau mewn perthynas â Cymwysterau Cymru, sy'n cynnwys paratoi'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol a chytuno arni. Mae'r uned hefyd yn helpu Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y grŵp noddi i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Cymwysterau Cymru, a bydd yn arwain y broses o gytuno ar ddyraniadau grant bob blwyddyn.

44. Bydd swyddogion yr Uned Noddi yn cydweithio'n rheolaidd â staff Cymwysterau Cymru i adolygu perfformiad ariannol y sefydliad yn erbyn ei gyllideb. Bydd yr Uned Noddi yn sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r holl ddatblygiadau polisi perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru, ac yn eu dwyn i sylw Cymwysterau Cymru os gallant effeithio ar ei fusnes. Bydd y Tîm Noddi hefyd yn achub ar y cyfle i lywio ac egluro datblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar Cymwysterau Cymru.

45. Y Tîm Noddi hefyd fydd y prif bwynt cyswllt a/neu ffynhonnell o gyngor ar gyfer Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r canlynol:

    - Unrhyw gytundebau rhwng y ddau sefydliad mewn perthynas â dyletswyddau statudol Cymwysterau Cymru, er enghraifft, cytundebau rhannu data.
    - Unrhyw brotocolau a sefydlir rhwng Gweinidogion Cymru a Cymwysterau Cymru.
    - Unrhyw gytundebau a sefydlir rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru, p'un ai gyda'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ai peidio.
    - Caniatâd Gweinidogol sy'n ofynnol o dan statud, er enghraifft, cymeradwyaeth Gweinidogol i gynlluniau codi ffioedd a lunnir gan Cymwysterau Cymru.

46. Os hoffai unrhyw un o grwpiau Llywodraeth Cymru ofyn i Cymwysterau Cymru gyflawni dyletswyddau ychwanegol heblaw am y rhai a nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru, y Tîm Noddi fydd cyfryngwr y contract; gan sicrhau bod y telerau yn cael eu cytuno a'u nodi yn y Llythyr Dyraniad Grantiau.

47. Y Tîm Noddi fydd y prif bwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddogion sy'n cynnal rhaglen o adolygiadau cyfnodol o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

48. Bydd y Tîm Noddi yn gyfrifol am fonitro uniondeb gweithgareddau Cymwysterau Cymru. Bydd yn gwneud hynny drwy fynd i gyfarfodydd perthnasol y Bwrdd a chyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio er mwyn rhoi cyngor priodol i'r Gweinidog, gan gydnabod hefyd y caiff rhai eitemau eu trafod na fyddai'n briodol i swyddogion y Tîm Noddi eu clywed. Gall Cymwysterau Cymru wahodd y Tîm Noddi i'r cyfarfodydd hyn, a bydd yn

rhannu agendâu'r cyfarfodydd hyn er mwyn rhoi cyfle i gydweithwyr yn y Tîm Noddi fynegi diddordeb mewn arsylwi cyfarfod perthnasol, os nad ydynt wedi cael eu gwahodd.

49. Os bydd gan y Tîm Noddi dystiolaeth sy'n peri pryder am uniondeb ymddygiad ariannol Cymwysterau Cymru, bydd yn cynghori'r Gweinidog ar y camau priodol i'w cymryd. Gall hyn arwain at y canlynol:

- Ailystyried y trefniadau cyllido.
- Cyfarfod rheoli perfformiad rhwng Cadeirydd Cymwysterau Cymru a'r Gweinidog Addysg.
- Diswyddo'r Cadeirydd a/neu aelodau(au) cyffredin o'r Bwrdd.

Atebolrwydd a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru

50. Caiff Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru ei ddynodi gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Gall y rôl hon gael ei chyflawni gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru neu swyddog arall. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- gwarchod yr arian cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdano yn briodol;
- gweithrediadau a rheoli Cymwysterau Cymru o ddydd i ddydd;
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

51. Gall y Prif Weithredwr (sef y Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar hyn o bryd) gael cymorth i gyflawni ei rôl gan gyflogeion Cymwysterau Cymru. Gall y Prif Weithredwr hefyd ddirprwyo'r gwaith o gyflawni'r cyfrifoldebau hyn o ddydd i ddydd i'r cyflogeion hynny ond ni all ddirprwyo atebolrwydd iddynt.

52. Caiff cyfrifoldebau penodol swyddog cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru eu nodi ym memorandwm Llywodraeth Cymru ‘Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru’.

Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r Bwrdd

53. Mae Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- cynghori'r Bwrdd ar sut i gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y ddogfen hon, llythyr dyraniad grantiau blynyddol y Gweinidog neu unrhyw ohebiaeth arall, ac unrhyw ganllawiau eraill a all gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd;

- sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau ariannol ar bob cam wrth wneud ei benderfyniadau a'u rhoi ar waith, a bod technegau arfarnu ariannol addas yn cael eu dilyn;

- sicrhau bod system rheoli risg yn cael ei defnyddio er mwyn llywio penderfyniadau ar waith cynllunio ariannol a gweithredol ac er mwyn helpu i gyflawni amcanion a chyrraedd targedau;

- sicrhau bod trefniadau rheoli mewnol a rheolaethau ariannol cadarn ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd; gan gynnwys mesurau i ddiogelu rhag twyll a dwyn (dylai'r mesurau hyn gynnwys system gynhwysfawr o awdurdodiadau dirprwyedig mewnol);

- sefydlu gweithdrefnau i ymdrin â chwynion am Cymwysterau Cymru;

- datblygu a chynnal polisïau rheoli personél priodol, y bydd pob un ohonynt ar gael yn hawdd i'r staff;

- cymryd camau fel y bo'n briodol, yn unol â thelerau'r memorandwm 'Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru', os yw'n ymddangos bod y Bwrdd neu'i Gadeirydd yn ystyried cam gweithredu sy'n cynnwys trafodyn a fyddai, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, yn torri'r gofynion o ran priodoldeb neu reoleidd-dra, neu nad yw'n gysfystyr â gweinyddu darbodus, neu effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd, neu sy'n amheus o safbwynt dichonoldeb neu sy'n anfoesegol.

Rôl y Prif Weithredwr fel Prif Swyddog dros achosion Ombwdsmon

54. Y Prif Weithredwr yw'r Prif Swyddog hefyd ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Atebolrwydd Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru i'r adran noddi

55. Mae Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru yn atebol i Swyddog Cyfrifyddu'r grŵp noddi (AGC) am y canlynol:

    - sicrhau bod rhagolygon ariannol a gwybodaeth fonitro amserol yn cael eu rhoi i'r Tîm Noddi, bod y Tîm Noddi yn cael ei hysbysu'n brydlon os oes gorwariant neu danwariant yn debygol a bod camau unioni yn cael eu cymryd;

    - sicrhau bod y Tîm Noddi yn cael ei hysbysu am broblemau mawr yn ymwneud â rheoleidd-dra ariannol Cymwysterau Cymru cyn gynted â phosibl[4];

    - cyflwyno unrhyw wybodaeth am wariant Cymwysterau Cymru y gallai'r Tîm Noddi wneud cais rhesymol i'w gweld.

56. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno copi o'i Gynllun Busnes blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn unol ag amserlen y cytunwyd arni â'r Tîm

[4] Bydd yr Uned Noddi yn gweithio gyda Cymwysterau i ddatblygu a chytuno ar brotocol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau cofnodadwy sy'n ymwneud â rheoleidd-dra ariannol, a rheoleiddio

Noddi, er mwyn ategu ei ragolygon cyllidebol. Bydd y cynllun hwn yn sail i drafodaethau ariannol drwy gydol y cyfnod rhwng y Tîm Noddi a Cymwysterau Cymru. Caiff y cynllun ei lywio gan brif nodau Cymwysterau Cymru a bydd yn nodi sut y caiff y nodau hyn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn i ddod.

Atebolrwydd Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

57. Mae Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y canlynol:

- llofnodi cyfrifon y sefydliad a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw mewn perthynas â'r cyfrifon;
- sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru;
- llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon;
- llofnodi'r Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon;
- rhoi tystiolaeth, gan gynnwys mynd i wrandawiadau, ar faterion sy'n ymwneud â Cymwysterau Cymru sy'n codi gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgorau Seneddol eraill, er mwyn rhoi cyfrif am y ffordd y mae Cymwysterau Cymru yn gwarchod adnoddau cyhoeddus;
- ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgorau hynny.

Bwrdd Cymwysterau Cymru

58. Caiff y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd eu penodi gan y Gweinidog Addysg am dymhorau o hyd at dair blynedd a gallant wasanaethu am hyd at ddau dymor neu chwe blynedd. Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/regulating-appointments/governance-code/

Cydgyfrifoldebau

59. Rôl y Bwrdd yw:

- rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer Cymwysterau Cymru; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a phennu amcanion heriol;

- rhoi arweiniad effeithiol o ran gweithrediad y sefydliad; dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif

- sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cyflawni yn effeithlon ac yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum egwyddor ar gyfer gweithio ac unrhyw ganllawiau statudol

- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn;

- hyrwyddo safonau uchel mewn cyllid cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

60. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ar reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid iddo sefydlu Pwyllgor Archwilio a gaiff ei gadeirio gan aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd na'r Trysorydd (pe bai Cymwysterau Cymru yn penodi Trysorydd ar unrhyw adeg, ni chaiff y Trysorydd gyflawni'r rôl honno) er mwyn rhoi cyngor annibynnol iddo ar y materion hyn.

61. Disgwylir i'r Bwrdd sicrhau ei hun bod y systemau rheolaeth fewnol a'r systemau rheoli risg yn effeithiol.

62. Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu (sef y Prif Weithredwr ar hyn o bryd) gyfrifoldeb personol i sicrhau nad yw rheoleidd-dra, priodoldeb na gwerth am arian yn amharu mewn unrhyw ffordd ar gyfrifoldeb aelodau unigol o'r Bwrdd, y mae gan bob un ohonynt ddyletswydd i weithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel mewn cyllid cyhoeddus, a sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cyflawni mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

63. Ni ddylai'r Bwrdd roi cyfarwyddiadau i'r Swyddog Cyfrifyddu cydnabyddedig sy'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru.

64. Yn benodol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

- sefydlu a datblygu nodau ac amcanion strategol Cymwysterau Cymru sy'n cyd-fynd â'i ddiben cyffredinol, y Nodau Llesiant ac o fewn y fframwaith ariannol a bennir gan y Gweinidog Addysg;

- sicrhau bod y Gweinidog yn cael ei hysbysu'n llawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar Cymwysterau Cymru a/neu ar y gallu i gyflawni ei brif nodau ac am y camau y mae angen eu cymryd i ddelio â'r fath newidiadau

- sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran defnyddio arian cyhoeddus; sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn gweithredu, o safbwynt ariannol, o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno â'r adran noddi, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus, a'i

fod, wrth wneud penderfyniadau ariannol, yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;

- sicrhau ei fod yn cael ac yn adolygu gwybodaeth ariannol am y ffordd y caiff Cymwysterau Cymru ei reoli yn rheolaidd, ei fod yn cael ei hysbysu' amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau Cymwysterau Cymru a'i fod, lle bo hynny'n gymwys, yn rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog, drwy'r Tîm Noddi, fod camau unioni priodol wedi cael eu cymryd i leddfu unrhyw bryderon o'r fath;

- dangos safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r Pwyllgor Archwilio er mwyn helpu'r Bwrdd i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill;

- penodi Prif Swyddog Gweithredol y sefydliad

- monitro cynlluniau Cymwysterau Cymru yn erbyn ei brif nodau gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni

- sicrhau bod rheolaethau Cymwysterau Cymru a'i drefniadau i reoleiddio a monitro ei weithgareddau yn rhoi gwerth am arian o fewn fframwaith arfer gorau a phriodoldeb

- sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn rhoi ystyriaeth benodol i'r effaith ar gyfle cyfartal (fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) wrth ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau;

- llunio rheolau ynghylch rheoli gwybodaeth a fydd yn cyd-fynd ag arfer gorau presennol, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac unrhyw safonau eraill a all fod yn gymwys yn y maes hwn.

65. Gall y Bwrdd, i'r graddau y caniateir hynny yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, ddirprwyo'r cyfrifoldeb am weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i aelodau o'r staff. Fodd bynnag, y Bwrdd fydd yn bennaf cyfrifol ac atebol am bob un o'r materion hynny.

66. Dylai Cymwysterau Cymru gadw rhestr o faterion a gaiff eu cadw er mwyn i'r Bwrdd benderfynu arnynt, yn ogystal â chynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru

67. Mae'r Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Addysg ac, yn y pen draw, Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weithgarwch Cymwysterau Cymru a'r ffordd y mae'n ymddwyn ac yn arfer ei swyddogaethau statudol fel y'u nodwyd yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015. Bydd unrhyw gyfathrebu rhwng Bwrdd Cymwysterau Cymru a'r Gweinidog yn cael ei wneud drwy'r Cadeirydd fel arfer.

68. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael eu hysbysu am bob gohebiaeth berthnasol â Gweinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol

Cymru a bod gohebiaeth ffurfiol yn cael ei chyhoeddi. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a chamau gweithredu'r Bwrdd yn rhoi sylw i bolisïau strategol ehangach y Gweinidog ac am sicrhau priodoldeb o ran busnes y Bwrdd. Lle bo hynny'n briodol, rhaid i'r polisïau a'r camau gweithredu hyn gael eu cyfleu a'u rhannu drwy Cymwysterau Cymru i gyd.

69. Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arwain penodol mewn perthynas â'r canlynol:

- llunio strategaethau'r Bwrdd;
- sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli statudol ac ariannol a phrif nodau a swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru; a'i fod yn rhoi sylw i'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau gan Weinidogion Cymru;
- hyrwyddo ymdrechion i wneud defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- cynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd a'r Gweinidog Addysg.

70. Rhaid i'r Cadeirydd wneud y canlynol hefyd:

- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad, yn ogystal â'u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau ei fod, ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ar ofynion rheoli ac adrodd ariannol cyrff yn y sector cyhoeddus, a'r gwahaniaethau a all fodoli rhwng arfer yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd sgiliau priodol i lywio busnes Cymwysterau Cymru, a chynghori'r Gweinidog, mewn achosion lle caiff penodiadau eu gwneud ganddo, ar anghenion Cymwysterau Cymru pan fydd swyddi gwag yn codi ar y Bwrdd;
- asesu perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd;
- sicrhau bod Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd ar gael sy'n cyd-fynd â chod ymddygiad enghreifftiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru.
- ar y cyd â'r Prif Weithredwr, cwrdd â'r Gweinidog priodol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod perfformiad Cymwysterau Cymru.

Cyfrifoldebau personol aelodau unigol o'r Bwrdd

71. Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, bydd aelodau'r Bwrdd yn:

- cydymffurfio â Chod Ymddygiad Cymwysterau Cymru ar gyfer Aelodau'r Bwrdd bob amser, yn ogystal â'r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau;

- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau mantais bersonol na gwleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle a gynigir gan wasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau preifat na buddiannau personau na sefydliadau y mae ganddynt gydberthynas â nhw;

- cydymffurfio â rheolau Cymwysterau Cymru ynglŷn â derbyn rhoddion a lletygarwch, a phenodiadau busnes;

- gweithredu'n ddidwyll ac er budd Cymwysterau Cymru bob amser, gan gynnwys cymryd camau rhagweithiol i reoli unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rhoi gwybod amdano.

Adroddiadau blynyddol

72. Bydd Cymwysterau Cymru yn paratoi dau adroddiad blynyddol:

- Adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei weithgareddau hyd at 31 Awst bob blwyddyn

- Set o gyfrifon blynyddol hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Disgrifir y rhain yn fanylach yn Adran 3. Rhaid i Cymwysterau Cymru weithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a chydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon Llywodraeth Cymru.

. Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn academaidd, bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar ei weithgareddau er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyhoedd i farnu i ba raddau y mae wedi llwyddo i gyflawni ei swyddogaethau.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol:

- Adrodd ar brif weithgareddau Cymwysterau Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol;
- Cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

3. Trefniadau rheoli

Cyffredinol

73. Oni chytuna'r Tîm Noddi fel arall yn ysgrifenedig, bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn yr egwyddorion, rheolau, canllawiau a chyngor yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a'r ddogfen hon bob amser, gan gyfeirio unrhyw anawsterau neu gynigion posibl am eithriadau at y tîm noddi yn y lle cyntaf. Mae rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru gydymffurfio â nhw i'w chael yn Atodiad 4.

74. Er mwyn cyflawni ei nodau, rhaid i Cymwysterau Cymru, lle y bo'n briodol, gydweithio'n agos â sefydliadau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, gan adlewyrchu'r ymrwymiadau yng nghytundebau partneriaeth Gweinidogion Cymru â'r sectorau gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol.

Staff Cymwysterau Cymru

Recriwtio, cadw a rheoli staff

75. Yn y trefniadau a gymeradwywyd gan y gan y Gweinidog Addysg, Cymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am recriwtio, cadw a chymell staff yn amodol ar y gofynion cyffredinol canlynol:

- mewn perthynas â recriwtio, rheoli a chynnydd staff, bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn egwyddorion cysondeb a phriodoldeb wrth ddefnyddio adnoddau fel y nodir yn “Rheoli Arian Cyhoeddus”, yn enwedig Pennod 4 sy'n ymdrin â strwythurau rheoli a llywodraethu mewnol;
- caiff Cymwysterau Cymru bennu ei strwythur ei hun ac eithrio'r canlynol:
  - unrhyw gynnig i greu swydd newydd ar lefel nad yw eisoes yn cael ei chynrychioli yn y strwythur staff neu ailraddio swydd i lefel o'r fath;
- caiff Cymwysterau Cymru amrywio cyfanswm y staff a gyflogir er mwyn adlewyrchu newidiadau ym maint ei weithrediadau neu swyddogaethau.
- rhaid i Cymwysterau Cymru sicrhau nad yw'r broses o greu unrhyw swyddi ychwanegol yn arwain at ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol a fydd yn fwy na'i allu i'w hariannu yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- bydd polisïau rheoli a datblygu staff ar waith a fydd yn cynnwys trefniadau ar gyfer arfarnu a rheoli perfformiad y staff gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad er mwyn annog y staff i feithrin sgiliau proffesiynol a rheoli perthnasol, ac unrhyw sgiliau ac ymddygiadau eraill sydd eu hangen i gyflawni eu rolau;
- bydd gan Cymwysterau Cymru bolisi datblygu sefydliadol, gweithdrefnau cwyno a disgyblu priodol a threfniadau priodol i ymdrin ag unrhyw bryderon y gall staff eu codi mewn perthynas ag amhriodoldeb;

- ymgynghorir yn briodol â'r staff ynghylch datblygu sefydliadol ac unrhyw faterion pwysig eraill sy'n effeithio arnynt.

Wrth recriwtio, rheoli a datblygu staff, bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn yr egwyddorion a'r ymddygiadau a nodir ym Mhennod 4 o 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a, lle y bo'n berthnasol, yn ystyried dogfen Llywodraeth Cymru, 'Gweithio gyda'n Gilydd – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru'.

Cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth

76. Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn lefelau cyffredinol o dâl a thelerau ac amodau gwasanaeth (gan gynnwys pensiwn) fel y cymeradwywyd gan y Gweinidog. Rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol i'r telerau ac amodau cyffredinol hynny, gan gynnwys lefelau tâl, gael eu hawdurdodi gan y Gweinidog ar wahân i unrhyw godiad cyflog y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil os caiff cyflogau staff Cymwysterau Cymru eu cydweddu â chyflogau'r Gwasanaeth Sifil (Cymru). Lle Cymwysterau Cymru yw penderfynu cydweddu â chodiadau cyflog Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil.

77. Nid oes gan Cymwysterau Cymru unrhyw bwerau dirprwyedig i ddiwygio ei delerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol. Fodd bynnag, caiff Cymwysterau Cymru amrywio contractau cyflogaeth unigol heb gael caniatâd y Gweinidog ymlaen llaw, ar yr amod bod unrhyw newidiadau o fewn fframwaith cyffredinol y telerau ac amodau a gymeradwywyd gan y Gweinidog. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai Cymwysterau Cymru gysylltu â'r Tîm Noddi.

78. Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu copïau o'i delerau ac amodau staff i'r Tîm Noddi ac yn rhoi gwybod iddo am unrhyw ddiwygiadau a geisir ar ôl hynny.

Cylchoedd gwaith cyflog

79. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno achos manwl dros ei gylch gwaith blynyddol arfaethedig ar gyfer trafodaethau cyflog i'r Tîm Noddi. Rhaid i'r cylch gwaith cyflog fod yn y fformat a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen iddo adlewyrchu canllawiau cyflog diweddaraf Llywodraeth Cymru ac angen Cymwysterau Cymru ar newidiadau mewn cyflog, graddau a thelerau ac amodau gwasanaeth eraill. Rhaid i gostau'r cynigion gael eu pennu'n llawn a rhaid dangos eu bod yn fforddiadwy yn y cyfnod a gwmpesir gan y cylch gwaith cyflog a blynyddoedd dilynol. Disgwylir i Cymwysterau Cymru weithredu system sy'n rhoi cyfle cyfartal i bob aelod o'r staff wneud cynnydd. Trysorlys EM sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am bolisi cyflog y sector cyhoeddus ac am sicrhau bod dyfarniadau cyflog yn gyson ag amcanion cyffredinol Llywodraeth y DU. Os mai'r unig newidiadau tebygol yw codiadau cyflog blynyddol neu gynyddiadau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Sifil yn ei gyfanrwydd ac y cytunir arnynt ar gyfer Cymru; ni fyddai angen i'r rhain gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog.

80. Rhaid i'r Tîm Noddi fod yn fodlon bod yr holl drefniadau cyflog wedi bod yn destun archwiliad cyflog cyfartal a, hefyd, gall fod angen tystiolaeth o bryd i'w

gilydd bod trefniadau sicrhau ansawdd annibynnol sy'n bodloni'r gofyniad hwn wedi cael eu rhoi ar waith.

81. Bydd angen i Cymwysterau Cymru ystyried cyhoeddiad Trysorlys EM o fis Mai 2012, "*Review of the Tax Arrangements of Public Sector Employees*". Mae'r Canllawiau hyn yn cadarnhau bod angen i bob aelod o'r staff gael ei dalu drwy drefniadau cyflogres. Nid yw trefniadau eraill lle y caiff staff (ac, yn arbennig, uwch aelodau o staff sy'n ennill mwy na £58,200 y flwyddyn) eu talu drwy gyfryngwyr, gan gynnwys asiantaethau, busnesau cyflogaeth a chwmnïau gwasanaeth personol, yn dderbyniol. Bydd angen i Cymwysterau Cymru wneud digon o ymholiadau i sicrhau ei hun bod secondeion ar gyflogres y sefydliad sy'n secondio yn hytrach na'u bod yn defnyddio trefniant cyfryngol.

Buddiannau staff a gwobrau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog

82. Wrth ystyried rhoddion neu wobrau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog i staff neu aelodau o'r Bwrdd, rhaid i Cymwysterau Cymru lunio barn ynghylch p'un a yw camau o'r fath yn gyfystyr â defnydd priodol o arian cyhoeddus. Wrth lunio cynlluniau buddiannau staff a gwobrau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog, rhaid i Cymwysterau Cymru gymryd sylw o ganllawiau Trysorlys EM; Regularity, Propriety and Value for Money, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

Pensiynau a TWE

83. Caiff aelodau cymwys o staff Cymwysterau Cymru eu cofrestru'n awtomatig ar ei gynllun pensiwn galwedigaethol cymeradwy yn unol â'r diwygiadau pensiwn y gweithle a nodir yn Neddf Pensiynau 2008 a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Cofrestru Awtomatig) (Diwygio) 2012. Gall fod angen i'r Tîm Noddi gael manylion o bryd i'w gilydd am nifer y staff sy'n optio allan o'r cynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl cael eu cofrestru'n awtomatig.

84. O fis Ebrill 2013, mae wedi bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gyflogwyr baratoi adroddiadau ar TWE mewn amser real. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM (CThEM) am ddidyniadau treth ac yswiriant gwladol a didyniadau eraill pan wneir y taliadau neu cyn hynny, yn hytrach nag aros nes ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben.

Dileu swyddi, diswyddo a digolledu

85. Rhaid i unrhyw daliadau dileu swyddi neu daliadau digolledu eraill am golli swydd gael eu gwneud yn unol â chynllun a gymeradwywyd gan y Tîm Noddi. Bydd angen i unrhyw gynnig i wneud taliadau y tu allan i gynllun cymeradwy gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Tîm Noddi.

86. Rhaid i gynigion mewn perthynas â diswyddo gydymffurfio â'r rheolau a nodir ym Mhennod 4 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Rhaid i'r Tîm Noddi gytuno ag unrhyw benderfyniad i ailgyflogi staff ar ôl i daliad digolledu am ddileu swydd neu ddiswyddo cyn unrhyw drafodaeth â'r person dal sylw. Y brif egwyddor yw na chaiff aelod o'r staff a ddigolledwyd am golli swydd/cyflogaeth ei ailgyflogi gan Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod tybiannol y mae'r taliad olaf yn perthyn iddo.

Trefniadau cynllunio

Cynllunio cyllidebau

87. Llywodraethir trefniadau cynllunio cyllidebau Llywodraeth Cymru gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

88. Bydd Cymwysterau Cymru yn cydweithredu â'r Tîm Noddi i roi cymorth a gwybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio cyllidebau. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw arbedion effeithlonrwydd blynyddol ac unrhyw weithgareddau na chânt eu cwblhau o bosibl os cyfyngir ar gyllid.

89. Bydd y Gweinidog Addysg yn cadarnhau faint o gyllid a ddarperir i Cymwysterau Cymru ac unrhyw gyllidebau perthnasol cyn gynted â phosibl, ac fel arfer o fewn mis fan bellaf ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno ar y gyllideb derfynol.

Cynllunio busnes

Llythyrau dyraniad grantiau

90. Bydd y Gweinidog yn trafod llythyr dyraniad grantiau drafft â Cymwysterau Cymru erbyn diwedd mis Tachwedd cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Caiff y llythyr dyraniad grantiau terfynol ei ddosbarthu cyn gynted â phosibl, ac fel arfer o fewn mis fan bellaf ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r gyllideb ddrafft. Bydd yn cynnwys y ffigur grant y pleidleisir arno a chyfansymiau rheolaeth gyllidebol cysylltiedig. Rhoddir gwybod i Cymwysterau Cymru yn ysgrifenedig am unrhyw amrywiadau i'r dyraniad cyllidebol yn ystod y flwyddyn, gan roi rhybudd priodol ymlaen llaw, lle bynnag y bo modd.

Cynlluniau corfforaethol

91. Bydd Cymwysterau Cymru yn llunio cynllun corfforaethol a fydd yn ystyried agenda strategol Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rheoli perfformiad

92. Rhaid i Cymwysterau Cymru roi systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu ar waith a fydd yn ei alluogi i adolygu'n amserol ac yn effeithiol ei berfformiad ariannol ac anariannol yn erbyn y targedau a nodir yn y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, gan ymgorffori nodau llesiant a ffyrdd o weithio fel y bo'n briodol.

Rheoli risg

93. Bydd Cymwysterau Cymru yn datblygu strategaeth rheoli risg er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau a dybir ganddo yn unol â'r agweddau perthnasol ar ganllawiau arfer gorau ym maes llywodraethu corfforaethol.

94. Rhaid i Cymwysterau Cymru fabwysiadu polisïau ac arferion a'u rhoi ar waith er mwyn diogelu ei hun rhag twyll a dwyn. Rhaid i Cymwysterau Cymru gymryd

camau cyfrifol i werthuso sefyllfa ariannol busnes neu gorff arall y mae'n bwriadu ymrwymo i gontract ag ef neu roi grant iddo, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y trefniant caffael neu'r cynllun grantiau.

4. Cyfrifyddu ariannol a threfniadau archwilio

Cyfrifoldebau ariannol Cymwysterau Cymru

95. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig â'r Tîm Noddi, bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn yr egwyddorion, rheolau, canllawiau a chyngor yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Ddogfen Fframwaith hon bob amser, gan gyfeirio unrhyw anawsterau neu gynigion posibl am eithriadau at y Tîm Noddi yn y lle cyntaf. Mae rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru gydymffurfio â nhw i'w chael yn Atodiad 4.

Adroddiadau cyffredinol

96. Bob chwarter, bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Tîm Noddi sy'n nodi gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn erbyn y cyllidebau a gymeradwywyd ynghyd â'r ffigurau gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ac esboniadau o unrhyw wahaniaethau sylweddol a phroblemau. Lle bynnag y bo modd, bydd fformat yr adroddiad yn gyson â threfniadau Cymwysterau Cymru ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'w Fwrdd.

97. Bydd Cymwysterau Cymru a'r Tîm Noddi yn cwrdd unwaith bob chwarter i drafod adroddiadau. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd yn cwrdd â'r Gweinidog unwaith y flwyddyn i drafod gweithgareddau a gwariant.

Adroddiadau ar eithriadau

98. Rhaid i Cymwysterau Cymru roi gwybod i'r Tîm Noddi cyn gynted ag y daw'n amlwg naill ai bod gwariant y flwyddyn lawn yn debygol o fod yn fwy na'r ddarpariaeth a gymeradwywyd neu fod Cymwysterau Cymru yn debygol o danwario o fwy na swm sy'n gyfwerth â 3% o gyfanswm ei grant.

    Rhaid iddo hefyd gyflwyno:

    - adroddiad blynyddol ar golledion a ddilëwyd a thaliadau arbennig a wnaed neu a ganiatawyd yn ystod y 12 mis blaenorol;
    - adroddiad blynyddol yn amlinellu pob achos o dwyll a dwyn y mae wedi'i wynebu.

Adolygiad cyfnodol

99. Gall y Tîm Noddi benderfynu cynnal adolygiad llywodraethu ffurfiol, gyda chydsyniad Cymwysterau Cymru o dan amgylchiadau lle y cyfyd pryder penodol.

Cyfrifon statudol

100. Bob blwyddyn ariannol, rhaid i Cymwysterau Cymru baratoi cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, y statudau perthnasol a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Cyn gynted ag y bydd yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno'r cyfrifon wedi'u llofnodi, ynghyd â llythyr sylwadau, i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn anfon dau gopi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi i'r adran noddi. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyflwyno'r

cyfrifon archwiliedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy'n ofynnol yn ôl Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Cymwysterau Cymru 2015.

Incwm

Arian cyhoeddus

101. Caiff pob un o'r ffrydiau incwm y cyfeirir atynt yn y paragraffau canlynol ('Incwm o ffynonellau'r trysorlys' ac 'Incwm o ffynonellau ar wahân i'r trysorlys') eu trin fel arian cyhoeddus, a bydd gofynion y dogfennau hyn yr un mor berthnasol iddynt.

Incwm o ffynonellau'r Trysorlys (Grant)

102. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud taliadau grant i Cymwysterau Cymru. Caiff y grant ei dalu mewn rhandaliadau misol, yn seiliedig ar gais i'r Tîm Noddi. Rhaid i'r cais hwn gael ei gyflwyno ar ffurf datganiad ariannol fel y nodir yn y ffurflen grant a dynnwyd i lawr, a hynny gan berson y rhoddwyd gwybod i'r Tîm Noddi ei fod wedi'i awdurdodi i wneud y cais. Ni chaiff Cymwysterau Cymru dynnu grant i lawr cyn bod angen. Fodd bynnag, rhaid i enillion o waredu ased a ariannwyd gan y Trysorlys gwerth £1 miliwn neu fwy gael ei ildio i Lywodraeth Cymru fel arfer, oni chytunwyd fel arall.

103. Gellir cadw enillion sy'n deillio o werthu asedau eraill a ariannwyd gan y Trysorlys, ar yr amod y cânt eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf arall – sef gwariant ar waith adeiladu newydd, tir, estyniadau neu newidiadau i adeiladau sydd eisoes yn bodoli a phrynu unrhyw ased unigol arall neu gasgliad o asedau (e.e. peiriannau), gan gynnwys cerbydau, sydd ag oes gweithio ddisgwyliedig o fwy na blwyddyn – ac ar yr amod nad yw cyfanswm y derbyniadau yn y flwyddyn ariannol yn mynd yn fwy na'r terfyn a nodir yn y gyllideb/llythyr cylch gwaith.

Incwm o ffynonellau ar wahân i'r Trysorlys

104. Lle y bo hyn yn gyson â'i swyddogaethau, rhaid i Cymwysterau Cymru geisio, cyn belled ag y bo modd, sicrhau cymaint â phosibl o dderbyniadau o ffynonellau ar wahân i'r Trysorlys. Caiff gadw derbyniadau hyd at y lefel a nodir yn y gyllideb/llythyr dyraniad grantiau y maent yn deillio ohoni/ohono, er enghraifft, enillion o werthu tir ac adeiladau ac asedau eraill, grantiau a roddwyd gan yr UE, grantiau a roddwyd drwy arian loteri, unrhyw enillion o weithgareddau masnachol Cymwysterau Cymru a'r rhai sy'n deillio o werthu gwasanaethau mewn marchnadoedd ehangach. Rhaid i weithgarwch o'r fath gael ei gyflawni yn unol â thelerau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r ddogfen hon. Lle y bo Cymwysterau Cymru yn ennill incwm o ffynonellau allanol, gall gadw uchafswm o 1% o gyfanswm y refeniw (heb gynnwys unrhyw aildaliadau am secondiadau staff) heb i hynny effeithio ar ei ddyraniad grant.

105. Gellir cadw enillion sy'n deillio o werthu tir, adeiladau ac asedau eraill, ar yr amod y cânt eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf arall – sef gwariant ar waith adeiladu newydd, tir, estyniadau neu newidiadau i adeiladau sydd eisoes yn bodoli a phrynu unrhyw ased unigol arall neu gasgliad o asedau (e.e. peiriannau), gan gynnwys cerbydau, sydd ag oes gweithio ddisgwyliedig o fwy

na blwyddyn – ac ar yr amod nad yw cyfanswm y derbyniadau yn y flwyddyn ariannol yn mynd yn fwy na'r terfyn a nodir yn y gyllideb/llythyr cylch gwaith.

Arian preifat

106. Tybir mai arian preifat yw rhoddion, grantiau ar gyfer ymchwil gan sefydliadau nad ydynt yn rhai cyhoeddus, neu gymynroddion a roddir i Cymwysterau Cymru ac nid ydynt wedi'u cwmpasu gan delerau'r ddogfen hon. Nid yw arian a geir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth na sefydliadau cyhoeddus eraill, arian a ddaw gan y trethdalwr yn bennaf nac unrhyw enillion o fuddiannau neu weithgareddau masnachol Cymwysterau Cymru yn cyfrif fel arian preifat.

Ffioedd a thaliadau

107. Yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau statudol perthnasol, rhaid i ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarperir gan Cymwysterau Cymru gael eu pennu yn unol â chanllawiau neu benderfyniadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru neu'r Trysorlys. Hefyd, rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gynllun codi tâl cyn iddo gael ei gyflwyno yn unol â Deddf Cymwysterau Cymru 2015.

Gwariant

108. Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 neu gan y ddogfen hon, caiff Cymwysterau Cymru, cyn gynted ag y bydd ei gyllideb wedi cael ei chadarnhau gan y Gweinidog, fynd i wariant ar y rhaglen a gymeradwywyd yn ei gyllideb flynyddol heb gyfeirio ymhellach at y Tîm Noddi ar yr amodau canlynol:

    - Bydd Cymwysterau Cymru yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad 5. Ni chaniateir addasu na thorri'r dirprwyaethau hyn heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Noddi.

109. Rhaid i Cymwysterau Cymru gael cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn bwrw ymlaen â'r canlynol

    - cynnig sydd y tu allan i gylch gwaith arferol Cymwysterau Cymru ac sydd â goblygiadau ehangach i'r system addysg y gellid ystyried eu bod yn newydd neu'n ddadleuol neu fod iddynt sgil-effeithiau,

    - newid mewn polisi neu ymarfer sydd â goblygiadau ariannol eang,

    - unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, neu

    - newid sylweddol yng ngweithrediad neu drefniadau ariannu unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd gan y Tîm Noddi a'r adran noddi.

110. Rhaid i Cymwysterau Cymru ddilyn y fframwaith polisi a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau.

111. Rhaid i Cymwysterau Cymru wrthod ceisiadau am daliad ymlaen llaw ac eithrio mewn achosion eithriadol lle yr ystyrir y gall fod angen rhywfaint o daliad. Mewn achosion o'r fath, rhaid glynu wrth yr egwyddorion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'

112. Rhaid i Cymwysterau Cymru ymgynghori â'r Tîm Noddi cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb prydlesu eiddo os yw'n uwch na'r terfynau dirprwyedig. Hefyd, rhaid i'r Tîm Noddi gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw gynigion i adleoli neu symud i swyddfeydd newydd.

113. Rhaid i Cymwysterau Cymru fod yn agored ac yn dryloyw wrth ymdrin â rhoddion, a rhoi polisïau clir ar waith mewn perthynas â datgelu gwybodaeth am unrhyw roddion a'r gweithdrefnau a fabwysiadir ar gyfer eu rhoi a'u derbyn.

Benthyca arian, rhoi arian ar fenthyg, gwarantau a buddsoddiadau

114. Ni fydd Cymwysterau Cymru, heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Noddi, yn cael benthyca arian (gan gynnwys cyfleusterau benthyca dros dro ar ffurf cyfleuster gorddrafft a drefnwyd ymlaen llaw i lenwi unrhyw fylchau rhwng trefniadau benthyca hirdymor), rhoi arian ar fenthyg, arwystlo unrhyw ased neu ernes, rhoi unrhyw warant neu indemniadau, llythyrau cysur, nac ymrwymo'n ymwybodol i unrhyw rwymedigaeth amodol arall (fel y disgrifir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru) boed ar ffurf gyfreithiol gyfrwymol ai peidio. Rhaid bod modd talu pob gwarant ac indemniad ariannol a roddir gan Cymwysterau Cymru yn ddigonol o Adnoddau Gwariant Cyhoeddus y Cynulliad sydd heb eu tynnu i lawr.

115. Ni chaiff Cymwysterau Cymru ychwaith wneud unrhyw fuddsoddiadau heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Noddi, ac eithrio mewn perthynas ag adneuo gwargedau arian parod byrdymor.

Grantiau a benthyciadau

116. Rhaid i bob grant gydymffurfio â thelerau 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', a chael ei wneud yn amodol ar delerau ac amodau priodol sy'n rhoi sicrwydd digonol i bwrs y wlad. Er enghraifft, rhaid i'r telerau ac amodau ganiatáu taliadau cyfnodol, atgyfnerthu hawliau mynediad i swyddogion Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, sicrhau bod buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru yn cael eu diogelu'n ddigonol, a chaniatáu adfachu dan rai amgylchiadau, e.e. os defnyddir arian grant at ddibenion heblaw rhai cymeradwy.

117. Rhaid i bob cynllun grantiau gael ei reoli o dan drefniadau tebyg.

Balansau arian parod

Yn ystod y flwyddyn

118. Rhaid i falansau arian parod a gronnir yn ystod y flwyddyn ariannol o arian grant neu arian o'r Trysorlys, gael eu cadw ar y lefel isaf sy'n gyson â gweithrediad effeithlon Cymwysterau Cymru. Rhaid i Cymwysterau Cymru geisio osgoi dal balans gweithio sy'n gyfwerth â mwy na 4% o gyfanswm ei

gyllideb gros flynyddol pan gaiff randaliad grant pob mis. Bydd unrhyw arian sy'n fwy na'r swm hwnnw a ddelir gan Cymwysterau Cymru fel balans gweithio ar ddiwedd pob cyfnod ariannu yn cael ei ystyried wrth bennu faint o grant a delir yn y cyfnod canlynol.

Diwedd blwyddyn

119. Caniateir i Cymwysterau Cymru gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf unrhyw falansau arian parod a dynnwyd i lawr ond nas gwariwyd, hyd at 2% o'r cyfanswm y cytunwyd arno ar gyfer ei gyllideb cymorth grant flynyddol (h.y. fel y nodir yn y llythyr dyraniad grantiau, heb gynnwys incwm o ffynonellau allanol). Rhaid cytuno'n ysgrifenedig ar unrhyw gynnig i gario drosodd symiau sy'n fwy na'r swm hwn ymlaen llaw gyda'r Tîm Noddi fesul achos unigol. Bydd unrhyw swm a gaiff ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno yn cael ei ystyried o fewn grant y flwyddyn ganlynol.

Rheoli derbyniadau

120. Os bydd derbyniadau a geir neu a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd, rhaid i Cymwysterau Cymru sicrhau gostyngiad cyfatebol yn ei daliadau gros fel nad eir dros ei ddarpariaeth awdurdodedig.

121. Os bydd derbyniadau a geir neu a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol yn fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd, caiff Cymwysterau Cymru wneud cais i'r Tîm Noddi am gael cadw'r cyfryw incwm dros ben ar gyfer gwariant ychwanegol penodedig.

Trosglwyddiadau

122. Ni chaiff Cymwysterau Cymru ailddyrannu arian rhwng unrhyw gyllidebau sydd bron yn arian parod, cyllidebau nad ydynt yn arian parod na chyllidebau cyfalaf, fel y nodwyd gan y Gweinidog yn y llythyr Dyraniad Grantiau, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Noddi.
123. Er gwaethaf yr uchod, ni ellir cynyddu'r gyllideb gyffredinol heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Noddi.

Llog a enillir ar falansau arian parod a balansau banc

124. Rhaid i'r holl log, llai unrhyw daliadau banc, a enillir gan Cymwysterau Cymru ar ei falansau arian parod a'i falansau banc, sy'n deillio o arian gan Llywodraeth Cymru, gael ei ddatgan bob mis ar ffurflen gais Cymwysterau Cymru i dynnu arian grant i lawr, a chaiff ei ildio i Drysorlys EM drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Trefniadau archwilio ac adroddiadau dilynol

Pwyllgor archwilio

125. Rhaid i Cymwysterau Cymru sefydlu Pwyllgor Archwilio i gynghori ei Swyddog Cyfrifyddu ynghylch digonolrwydd trefniadau Cymwysterau Cymru ar gyfer materion yn ymwneud ag archwilio mewnol, archwilio allanol a llywodraethu corfforaethol. Rhaid i Cymwysterau Cymru rannu copïau o gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio â'r Tîm Noddi. Hefyd, mae gan y Tîm Noddi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw rai o gyfarfodydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio fel arsylwyr os bydd yr amgylchiadau'n galw am hynny.

Archwilio mewnol

126. Rhaid i Cymwysterau Cymru:

- sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer archwilio mewnol yn unol â'r amcanion, safonau ac arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwilio Mewnol Trysorlys EM ar gyfer y Sector Cyhoeddus;
- os caiff y swyddogaeth ei chyflawni'n fewnol, sicrhau y rhoddir trefniadau ar waith i gynnal archwiliadau ansawdd allanol o'i waith archwilio mewnol o leiaf unwaith bob pum mlynedd, ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried p'un a all ddibynnu ar yr adolygiadau hyn i roi sicrwydd ynghylch ansawdd gwaith archwilio mewnol Cymwysterau Cymru;
- bob blwyddyn, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Swyddog Cyfrifyddu a Phwyllgor Archwilio Cymwysterau Cymru, cyflwyno'r strategaeth archwilio, y cynlluniau archwilio cyfnodol a'r adroddiad archwilio blynyddol, gan gynnwys barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar drefniadau rheoli risg, rheoli a llywodraethu, i'r Tîm Noddi;
- rhoi gwybod i'r Tîm Noddi cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl ei drefniadau Archwilio Mewnol a/neu ei Bwyllgor Archwilio.

Bydd y Tîm Noddi:

- yn asesu effeithiolrwydd adroddiad sicrwydd blynyddol Cymwysterau Cymru (fel y'i paratowyd gan ei swyddogaeth Archwilio Mewnol);
- â hawl i weld yr holl ddogfennau a baratowyd gan archwilydd mewnol Cymwysterau Cymru, gan gynnwys lle y caiff y gwasanaeth ei roi ar gontract allanol.

Archwilio allanol

127. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol Cymwysterau Cymru, wedi'i benodi drwy gytundeb o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

128. O dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio i ba raddau y mae Cymwysterau Cymru wedi defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau. O dan adran 145A, gall Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgymryd ag astudiaethau a fwriedir i'w alluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyrff wrth gyflawni eu swyddogaethau, ac astudiaethau eraill mewn perthynas â darparu gwasanaethau. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â'r archwiliad ariannol statudol, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl statudol i weld dogfennau.

129. Hefyd, bydd gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol hawliau i weld unrhyw ddogfennaeth berthnasol yn rhinwedd adran 136 o Ddeddf Llywodraeth Cymru

2006. Yn ogystal â hynny, rhaid i Cymwysterau Cymru alluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru, drwy amodau i grantiau a chontractau, i weld dogfennau a ddelir gan dderbynyddion grantiau a chontractwyr ac isgontractwyr fel y bo'n ofynnol ar gyfer yr archwiliadau hyn, a rhaid iddo wneud pob ymdrech i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i weld unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol ganddo a ddelir gan gyrff eraill.

Hawl mynediad yr adran noddi

130. Os bydd angen, mae gan y Tîm Noddi hawl i weld holl gofnodion ariannol a chofnodion personél Cymwysterau Cymru at ddibenion monitro gan gynnwys, er enghraifft, archwiliadau nawdd.

Is-gwmnïau a chyd-fentrau

131. Ni chaiff Cymwysterau Cymru sefydlu is-gwmnïau na chyd-fentrau sy'n golygu bod angen sefydlu cyfryngau diben arbennig – megis cwmnïau, partneriaethau neu unrhyw strwythur arall â hunaniaeth ac atebolrwydd cyfreithiol – heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Gweinidog.

132. Bydd unrhyw is-gwmni neu gyd-fenter a reolir neu a berchenogir gan Cymwysterau Cymru yn cael ei gydgrynhoi neu ei chydgrynhoi ag ef, fel sy'n ofynnol gan y safonau cyfrifyddu ac, oni chytunir fel arall gan y Tîm Noddi, bydd yn ddarostyngedig i'r rheolaethau a'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ac i unrhyw ddarpariaethau pellach o'r fath a nodir mewn canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol.

Darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – arfarnu, ymchwilio a gwerthuso

133. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid bod gan Cymwysterau Cymru systemau priodol, a'r gallu, i sicrhau bod ei bolisïau a'i raglenni yn seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â'u datblygu, eu rhoi ar waith a'u gwerthuso.

134. Bydd yn adolygu ei wasanaethau a'i weithgareddau yn rheolaidd. Rhaid i Cymwysterau Cymru hefyd sicrhau y bydd ei ddull o gynnal arfarniadau a gwerthusiadau yn gwbl gyson â'r egwyddorion a nodir mewn canllawiau.

135. Wrth gwrs, byddai disgwyl i Cymwysterau Cymru gymryd cyfrifoldeb am ei benderfyniadau ac, fel arfer, byddai disgwyl iddo dalu costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â heriau i'w benderfyniadau, gan gynnwys Adolygiad Barnwrol. Fodd bynnag, yn achos Adolygiad Barnwrol o benderfyniad gan Cymwysterau Cymru, byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i ystyried unrhyw ddiffyg cyllid sylweddol.

Atodiad 1: Egwyddorion llywodraethu

Annibyniaeth Cymwysterau Cymru

Mae Cymwysterau Cymru yn ariannol ddibynnol ar gyllid gan y Llywodraeth ac mae'n atebol i Weinidogion am y gwariant hwnnw.

Fodd bynnag, mae ganddo annibyniaeth mewn gweithdrefnau gweithredol. Mae hyn yn sicrhau ei fod yn rhydd rhag unrhyw ddylanwad gwleidyddol, ac yn ennyn hyder y cyhoedd yng ngwaith Cymwysterau Cymru.

Llywodraethu Cymwysterau Cymru

Dylai'r trefniadau llywodraethu a'r gyfundrefn reolaeth fewnol fod yn fater i Fwrdd Cymwysterau Cymru yn bennaf.

Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn chwarae rôl bwysig yn nhrefniadau llywodraethu Cymru ac wrth gyflawni dyheadau pobl Cymru. Caiff y berthynas rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymwysterau Cymru ei chynnal drwy drefniadau a reolir gan Gomisiwn y Cynulliad.

Rhaid i Cymwysterau Cymru sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).

Ffocws ar y dysgwr

Bydd y Tîm Noddi a Cymwysterau Cymru yn gweithredu er mwyn ceisio diogelu dysgwyr Cymru a bod o fudd iddynt o ganlyniad i weithredu ar y cyd.

Diben nawdd

Nodau nawdd yw:

- meithrin a chynnal cydberthynas gadarnhaol rhwng y corff a noddir a Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch a chyfathrebu agored a gonest;
- darparu'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen ar y corff a noddir, neu y gall ofyn amdanynt, er mwyn cyflawni ei amcanion;
- sicrhau bod prif nodau ac amcanion corff a noddir yn cael eu cyflawni;
- annog a hyrwyddo safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Cydberthynas yn llawn cyfathrebu

Bydd Cymwysterau Cymru a'r Tîm Noddi yn cwrdd o leiaf unwaith bob chwarter i drafod cynnydd ariannol. Fodd bynnag, bydd y cyfathrebu'n barhaus, yn gydweithredol ac yn dryloyw.

Cynhelir cyfarfodydd anffurfiol, rheolaidd rhwng Prif Swyddog Gweithredol Cymwysterau Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Atodiad 2: Hanfodion nawdd effeithiol

Mae'r egwyddorion sy'n diffinio'r gydberthynas waith rhwng tîm noddi a'r corff a noddir ganddo wedi'u nodi yn y cyflwyniad i'r Ddogfen Fframwaith hon.

Nodau nawdd yw:

- Meithrin cydberthynas â'r corff a noddir sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch a chyfathrebu agored a gonest.
- Sicrhau bod nodau ac amcanion strategol corff a noddir yn ystyried amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru a hefyd y nodau a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Darparu'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen ar y corff a noddir, neu y gall ofyn amdanynt, er mwyn cyflawni ei amcanion.
- Annog a hyrwyddo safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Nodir swyddogaethau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n sail i'r prif nodau hyn yn y Ddogfen Fframwaith hon, sy'n diffinio'r gydberthynas rhwng y tîm noddi a Cymwysterau Cymru y mae'n gyfrifol amdani.

Mae angen i dimau noddi daro cydbwysedd rhwng rheoli a chaniatáu i'r corff a noddir weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd, fel roedd y bwriad pan sefydlwyd y cyrff fel sefydliadau hyd braich. Mae angen iddynt sicrhau bod y gydberthynas yn un effeithiol, gyda'r naill bartner yn galluogi ac yn helpu'r llall i gyflawni amcanion. Hefyd, mae angen i dimau noddi a chyrff a noddir sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth ac arfer gorau mewn ffordd berthnasol ac amserol, a chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd.

Yn y paragraffau canlynol, eir ati i geisio crynhoi'r priodoleddau pwysicaf sy'n helpu i sicrhau y gellir cyflawni'r rôl noddi mor effeithiol â phosibl.

Dealltwriaeth glir

O'r fframwaith llywodraethu corfforaethol y mae cyrff a noddir yn gweithredu yn unol ag ef: gwybodaeth dda am y ffordd y mae'r prosesau cynllunio gweithredol a chynllunio busnes a'r broses o bennu cylch gorchwyl yn gweithio, a chysylltiadau â nodau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru (a adlewyrchir yn Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol); a gwaith cynllunio grwpiau/is-adrannau a changhennau. Sicrhau bod y corff a noddir yn deall y broses fonitro a'r hyn y disgwylir iddo ei wneud.

O'r fframwaith atebolrwydd ariannol y mae'r tîm noddi a'r corff a noddir yn gweithredu yn unol ag ef: gwybodaeth glir am y priod rolau a rhwymedigaethau a nodir yn y Ddogfen Fframwaith; perthnasedd a phwysigrwydd y broses

archwilio, gan gynnwys llythyrau rheoli ac adroddiadau sicrwydd ychwanegol; sensitifrwydd argymhellion y Pwyllgor Archwilio a'r broses o'u rhoi ar waith;

Rôl weithredol a strwythur y corff a noddir ynghyd â gwerthfawrogiad o'r problemau y mae'n eu hwynebu neu y mae'n rhagweld ei fod yn eu hwynebu a rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir rhwng y tîm noddi a'r corff a noddir.

Asesu risg

Asesiad clir a pharhaus o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gydberthynas noddi a strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â nhw: er enghraifft risgiau, boed yn benodol neu'n gyffredinol, yn sgil natur rôl y corff a noddir (e.e. *gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol gyrff*). Hefyd, risgiau penodol sy'n gysylltiedig â rheoli ariannol a nodir mewn llythyrau rheoli; patrwm o fethu â chyrraedd targedau strategol; neu “fannau gwan” y gellir eu nodi o ran cyfathrebu, a all olygu bod angen i'r tîm noddi fod yn fwy rhagweithiol wrth oruchwylio'r corff a noddir o bosibl.

Cyfathrebu effeithiol

Strwythur clir ar gyfer cyfathrebu ffurfiol: mewn perthynas â data sydd er budd pawb a gwaith cynllunio gweithredol a chynllunio busnes rheolaidd a'r trefniadau adrodd a monitro ffurfiol sy'n deillio o'r rhain. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd noddi a chyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau o'r tîm noddi neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y bo'n briodol, i adolygu perfformiad a thrafod materion trawsbynciol neu faterion sy'n codi.

Diwylliant o gyfathrebu cyson nad yw'n ymwthiol: mae hyn yn bwysig er mwyn helpu i fagu hyder ac ymddiriedaeth, a all, yn eu tro, arwain at onestrwydd a pharodrwydd i rannu a datrys problemau'n gynnar. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau o'r tîm noddi neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn ogystal â deialog rhwng swyddogion. Dylid ystyried digwyddiadau rhannu gwybodaeth/rhwydweithio blynyddol, gan roi cyfleoedd i gydweithwyr polisi a chyflawni gwrdd, rhannu arfer gorau a meithrin cydberthnasau gwaith.

Caiff lefelau uwch eu cynnwys yn dda: er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol da, ac adlewyrchu ymrwymiad i'r gydberthynas.

Cyfathrebu effeithiol yn fewnol: gwybod â phwy i gysylltu o fewn Llywodraeth Cymru i gael cyngor ar faterion fel cyllidebu; priodoldeb; caffael a materion yn ymwneud â phersonél: a pharodrwydd i wneud hynny.

Datblygu polisïau mewn modd cynhwysol: dylai'r corff a noddir gael ei gynnwys yn briodol wrth ddatblygu unrhyw bolisïau, gyda deialog a chyfathrebu rheolaidd yn parhau drwy gydol y broses.

Sefydlu presenoldeb awdurdodol

Dylai'r tîm noddi weithredu fel y prif bwynt mynediad i Lywodraeth Cymru ar gyfer y corff a noddir a bod yn ffynhonnell o gyngor awdurdodol (hyd yn oed os daw'r cyngor hwnnw o rywle arall). Mae parodrwydd i gymryd perchenogaeth dros

gyngor o'r fath wrth gyfathrebu â'r corff a noddir yn hanfodol. Deall y negeseuon rydych yn eu trosglwyddo a bod yn barod i roi cyngor.

Herio a Chraffu: ei gwneud yn amlwg bod cwestiynu'r corff a noddir mewn modd strwythuredig a chadarn yn rhan hanfodol o'r rôl, er mwyn cefnogi atebolrwydd cyhoeddus, ond dylai hyn fod ar lefel strategol yn hytrach nag ar lefel weithredol, er mwyn osgoi micro-reoli. Dadansoddi cynigion a gwneud argymhellion ar sail gwybodaeth i drydydd partïon (e.e. Swyddogion Cyfrifyddu a Gweinidogion).

Cysylltu â Gweinidogion: dod i gytundeb â Gweinidogion ynghylch yr hyn y mae disgwyl i'r corff a noddir ei gyflawni, ac yna hyrwyddo ei safbwynt yn gadarn ac yn onest.

Hyfforddiant Effeithiol: hyfforddiant sefydlu dwyochrog effeithiol a hyfforddiant noddi effeithiol penodol (ar y cyd â phersonél y corff a noddir lle y bo modd).

Ystyried priodoldeb: hyfforddiant desg; cyfnewid swyddi am gyfnod byr er mwyn ymaddasu; secondiadau neu gysgodi gwaith; er mwyn helpu pobl i ddeall rolau a heriau.

Atodiad 3: Y swyddogaeth noddi fel y'i nodir yn y ddogfen fframwaith model

- cyflwyno cyngor i Weinidogion Cymru perthnasol a briffio Pwyllgorau perthnasol y Cynulliad ynghylch materion yn ymwneud â Cymwysterau Cymru;
- cael gwybodaeth a ddarperir gan Cymwysterau Cymru o dan y ddogfen fframwaith, a gweithredu ar sail y wybodaeth honno;
- edrych dros hawliadau am gymorth grant ac, os yw'n briodol eu talu, awdurdodi hynny;
- cyfleu polisi Llywodraeth Cymru i Cymwysterau Cymru a rhoi cyngor ar ddehongli'r polisi;
- cynghori Gweinidogion ar flaenoriaethau gwariant a lefelau priodol o grant;
- monitro sefyllfa ariannol Cymwysterau Cymru yn erbyn cynlluniau drwy gynnal cyfarfodydd â Cymwysterau Cymru a chael ffurflenni ganddo yn rheolaidd; a pharatoi adroddiadau i Weinidogion a Phwyllgorau priodol y Cynulliad;
- rhoi arweiniad i Cymwysterau Cymru fel y bo'n briodol.

Atodiad 4: Rhestr o ganllawiau a chyfarwyddiadau corfforaethol ar sail llywodraeth gyfan

- y ddogfen hon;
- Llythyr Dyraniad Grantiau blynyddol y Gweinidog i Cymwysterau Cymru;
- Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru;
- Memorandwm Llywodraeth Cymru, "Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru";
- Cyfarwyddyd Cyfrifon Cymwysterau Cymru;
- Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice;
- Trysorlys EM "Government Internal Audit Standards";
- Trysorlys EM "Managing the Risk of Fraud";

  https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120906143131/http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf
- Trysorlys EM "Executive NDPBs - Annual Reports and Accounts Guidance";
- Trysorlys EM "Departmental Banking: A Manual for Government Departments" (cyhoeddwyd fel Atodiad 5.7 i "Managing Public Money";

  https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742189/Managing_Public_Money__MPM__with_annexes_2018.pdf
- Trysorlys EM "Regularity, Propriety and Value for Money"

  https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742188/Managing_Public_Money__MPM__2018.pdf
- Trysorlys EM "Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government";

  https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent
- Trysorlys EM "Audit Committee Handbook";

  https://www.gov.uk/government/publications/audit-committee-handbook
- Swyddfa'r Cabinet "Magenta Book – Guidance Notes on Policy Evaluation";

  https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book
- Swyddfa'r Cabinet "Code of Practice for Public Bodies";

  https://www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct
- Cymdeithas Werthuso'r DU "Guidelines for Good Practice in Evaluation";

  https://www.evaluation.org.uk/index.php/news-resources/ukes-publications/46-ukes-guidelines-for-good-practice-in-evaluation

- Awdurdod Ystadegau'r DU “Code of Practice for Official Statistics” a'i brotocolau cysylltiedig;

  http://www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/code-of-practice/code-of-practice-for-official-statistics.pdf
- Comisiwn Iechyd a Diogelwch/Adran yr Amgylchedd a'r Rhanbarthau “Revitalising Health and Safety”;
  http://www.hse.gov.uk/strategy/

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- llythyrau “Prif Swyddog Gweithredol” sydd ar gael;
- llythyrau “Annwyl Swyddog Cyfrifyddu” sydd ar gael;
- llythyrau “Annwyl Swyddog Cyfuno” sydd ar gael;
- Llythyrau rheoli gan archwilwyr allanol;
- cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru;
- argymhellion gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgorau Seneddol eraill neu awdurdod Seneddol sydd wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru ac sy'n berthnasol i Cymwysterau Cymru.

Yn ogystal, wrth gynnal ei fusnes, bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau, ymhlith pethau eraill:

- ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw rai o Safonau'r Gymraeg a gaiff eu gosod arno gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu, lle nad oes yn rhaid i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Safonau, yn nhermau ei Gynllun Iaith Gymraeg os oes gan y Corff hwnnw Gynllun Iaith Gymraeg. Os nad oes Cynllun o'r fath yn bodoli, dylai'r Corff a Noddir roi sylw i delerau Safonau'r Gymraeg a nodir yn yr hysbysiadau cydymffurfio a osodwyd ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg a gweithio'n unol ag ysbryd yr hysbysiad cydymffurfio. Mae copi o'r fersiwn ddiweddaraf i'w weld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg;
- bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gydnaws â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel y nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd;
- ei fod yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

- bod ei swyddogaethau yn cefnogi'r nodau a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

Nodau Llesiant
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynol
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Pum Egwyddor ar gyfer Gweithio	
Hirdymor	Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
Atal	Atal – Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
Integreiddio	Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'i amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
Cydweithio	Gallai cydweithio ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
Cymryd rhan	Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

- mae'n dilyn yr ymagwedd at fod yn agored a nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth;
- mae'n rhoi sylw dyledus i'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus;

- mae ei ymarferion caffael yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddorion a nodir yng Nghanllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru gan Lywodraeth Cymru.

- O safbwynt bod yn agored, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, bydd disgwyl i Cymwysterau Cymru gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Dylai o leiaf un cyfarfod bob blwyddyn fod yn gyfarfod agored. Lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, bydd Cymwysterau Cymru yn rhyddhau adroddiadau cryno neu'n sicrhau bod cofnodion ei gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd.

  O safbwynt iechyd, diogelwch a lles, rhaid i Cymwysterau Cymru wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles fel y maent yn berthnasol i'w holl swyddogaethau, prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau;
- ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau a ariennir ganddo ac unrhyw gontractwyr ac isgontractwyr a ddefnyddir gan y sefydliadau hynny gydymffurfio yn yr un modd;
- cydymffurfio'n llawn â pholisi Llywodraeth y DU ar iechyd, diogelwch a lles.

Atodiad 5: Crynodeb o ofynion cymeradwyo a therfynau dirprwyo

Pwnc	Terfyn Dirprwyo
Penodi Prif Weithredwr	**Mae'r Telerau ac Amodau penodi yn galw am gymeradwyaeth y Gweinidog**
Cydnabyddiaeth a thelerau ac amodau'r staff	**Rhaid i ddiwygiadau i'r telerau ac amodau cyffredinol gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog. (Ni fyddai angen cael cymeradwyaeth ar wahân gan y Gweinidog ar gyfer unrhyw godiadau cyflog blynyddol sy'n rhan o gytundeb cyflog a negodir yn genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru)**
Trefniadau pensiwn a thaliadau diswyddo neu iawndal	**Cymeradwyaeth y Gweinidog**
Cynllun Corfforaethol a Gweithredol	**Caiff ei gyflwyno at ddibenion gwybodaeth i gefnogi rhagolygon cyllidebol Cymwysterau Cymru.**
Is-gwmnïau a chyd-fentrau	**Cymeradwyaeth gan y Gweinidog ar gyfer pob un**
Trosglwyddiad y tu hwnt i'r terfynau penodedig (mae'r terfynau penodedig yn y Ddogfen Fframwaith)	**Cymeradwyaeth y Tîm Noddi**
Cynigion newydd, cynigion dadleuol neu gynigion sydd â sgil-effeithiau	**Cymeradwyaeth y Tîm Noddi os yw'r cynigion y tu hwnt i gylch gwaith arferol Cymwysterau Cymru**
Unrhyw arian sy'n cael ei fenthyca, arian sy'n cael ei roi ar fenthyg, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau	**Cymeradwyaeth y Gweinidog (heblaw am flaendaliadau i staff ar gyfer tocynnau tymor ac ati)**
Prosiectau cyfalaf	**£50,000 fesul prosiect**
Prosiectau TG	**£135,000 gan gynnwys TAW**
Contractau ymgynghori	**Yn unol â phrosesau Cymwysterau Cymru**
Amrywiadau tendr unigol	**Yn unol â phrosesau Cymwysterau Cymru**
Rhoddion, lletygarwch, gwobrau ac ati	**Yn unol â phrosesau Cymwysterau Cymru**
Nawdd	**Uwchlaw £20,000 y flwyddyn, cymeradwyaeth yr Uned Noddi**
Colledion a thaliadau arbennig	**Uwchlaw £50,000 y flwyddyn, cymeradwyaeth yr Uned Noddi**
Cadw derbyniadau sydd uwchlaw'r	**Cymeradwyaeth y Tîm Noddi ym**

terfyn a nodir yn y Llythyr Dyraniad Grantiau	**mhob achos**
Cario drosodd	**Yn ystod y flwyddyn – 4% o gyfanswm y gyllideb flynyddol gros Diwedd y flwyddyn – 2% o gyfanswm y gyllideb flynyddol gros, heb gynnwys incwm o ffynonellau allanol.**
Grantiau	**Uwchlaw £550,000, cymeradwyaeth y Tîm Noddi**
Gwariant Cyffredinol	**Yn unol â'r cyfyngiadau ar wariant a ddisgrifir yng nghorff y Ddogfen Fframwaith**
Incwm	**Gall Cymwysterau Cymru gadw hyd at 1% o'r cyfanswm refeniw**

Yn ymarferol, bydd y Tîm Noddi yn cyflawni llawer o'r swyddogaethau cymeradwyo ar ran y Gweinidog yn unol â chynllun dirprwyo y cytunwyd arno â'r is-adran noddi.